

Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol

# Cynllun Comisiynu Anabledd Dysgu 2011-16



Cefnogi pobl i fyw yn annibynnol a diogel  
☎ 01286 682888 • ✉ [cao@gwynedd.gov.uk](mailto:cao@gwynedd.gov.uk)  
🌐 [www.gwynedd.gov.uk](http://www.gwynedd.gov.uk)



## CYNNWYS

<b>1</b>	<b>Cyflwyniad</b>	<b>1</b>
<b>2</b>	<b>Cysylltiadau gyda chynlluniau strategol lleol a chenedlaethol</b>	<b>4</b>
<b>3</b>	<b>Cyflwyno'r canlyniadau</b>	<b>5</b>
<b>4</b>	<b>Data</b>	<b>6</b>
<b>5</b>	<b>Rhagdybiaethau ar gyfer 2011 - 2016</b>	<b>9</b>
<b>6</b>	<b>Model anghenion / adnoddau</b>	<b>13</b>
<b>7</b>	<b>Bwriadau Comisiynu 2011 - 2016</b>	<b>15</b>
<b>8</b>	<b>Ymgynghori</b>	<b>19</b>
<b>9</b>	<b>Monitro</b>	<b>20</b>
<b>10</b>	<b>Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993</b>	<b>21</b>
<b>11</b>	<b>Geirfa</b>	<b>22</b>
	<b>CYNLLUN GWEITHREDU</b>	<b>23</b>

# I. Cyflwyniad

Mae'r cynllun hwn yn amlinellu sefyllfa anghenion oedolion gydag anabledd dysgu yng Ngwynedd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, ac yn pennu cynllun gweithredu er mwyn cwrdd â'r anghenion hynny yn ystod y 5 mlynedd nesaf.

Rydym yn rhagweld cynnydd o tua 76 (14%) yn nifer yr oedolion ag anabledd dysgu fydd angen gwasanaethau gennym dros y 5 mlynedd nesaf. Wrth gynllunio i'r dyfodol, yr hyn sydd bwysicaf yw'r canlyniadau y dymunwn eu gweld i bobl a sicrhau bod natur ac amrediad gwasanaethau yn cynnig y profiadau gorau posibl ac yn diwallu anghenion yn llwyr tra'n hybu dewis ac annibyniaeth.



Pe baem yn parhau i wario ar yr un lefel, ac ar yr un mathau o wasanaethau, amcangyfrifir y byddai'r cynnydd mewn defnyddwyr gwasanaeth gyfystyr â gwariant ychwanegol o tua £1.5m. O fod wedi costio ein bwriadau comisiynu, rhagwelir y gellir cyfyngu'r cynnydd hwn i lai na £200,000 tra, ar yr un pryd, yn trawsffurfio gwasanaethau i gyfarch anghenion canfyddedig.

## 1.1 Gweledigaeth a'r egwyddorion sylfaenol

Mae rôl a gweledigaeth y Cyngor yn glir, sef creu cymunedau ble mae pobl eisiau byw yn awr ac yn y dyfodol.

***Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid. Gweledigaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol i oedolion yw hybu a chynnal annibyniaeth drwy gefnogi pobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain cyn hired â phosib.***

Prif nod Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd wrth gomisiynu gwasanaethau ar gyfer oedolion yw sicrhau eu bod yn:

- cwrdd ag anghenion yr unigolyn
- cyfrannu tuag at gynnal annibyniaeth
- ddeniadol, addas a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol
- cynnig dewisiadau ac opsiynau i'r unigolyn
- cynnig gwerth am arian / yn gost effeithiol
- cwrdd â safonau disgwylidig

- ddigon hyblyg i allu newid i gyfarch unrhyw newidiadau i amgylchiadau ac anghenion yr unigolyn.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) hefyd yn gytûn â'r weledigaeth uchod ac mae tîm amlddisgyblaethol yn cydweithio ar draws y sir i sicrhau'r weledigaeth. Mae cynrychiolwyr o BIPBC yn aelodau o'r Grŵp Gwella Gwasanaeth Anabledd Dysgu hefyd a thrwy hyn yn cael mewnbwn i drafodaethau a phenderfyniadau ac yn wir i gynnwys y cynllun hwn.

### 1.2 Diffiniad o Anabledd Dysgu

Mae **Sefydliad Iechyd y Byd** yn diffinio anabledd dysgu fel:

*“ a state of arrested or incomplete development of mind.”*

Diagnosis yw anabledd dysgu, nid yw'n glefyd, nac yn salwch corfforol neu feddyliol.

Yn rhyngwladol mae tri maen prawf i'w cwrdd cyn gellid nodi anabledd dysgu:

- nam deallusol sylweddol
- diffygion mewn gweithredu cymdeithasol neu ymddygiad addasol (sgiliau sylfaenol bob dydd)
- mae'n bresennol o gyfnod plentyndod gydag effaith datblygiadol hir dymor.

Nid yw bod â chyniferydd deallusrwydd (IQ) isel, er enghraifft IQ dan 70, ynddo'i hun yn ddigon o reswm dros benderfynu a ddylid rhoi cefnogaeth iechyd neu ofal cymdeithasol ychwanegol i unigolyn ai peidio. Wrth bennu anghenion, dylid hefyd ystyried asesiad o sgiliau cyfathrebu ac ymddygiad cymdeithasol.

Nid yw anabledd dysgu yn cynnwys y rhai hynny i gyd sydd ag anhawster dysgu; caiff hwn ei ddiffinio'n ehangach yn nhermau addysg.

### 1.3 Canlyniadau

Er mwyn i ddefnyddwyr gwasanaeth fod yn ddinasyddion llawn yn y gymdeithas, bydd gwasanaethau yn cael eu comisiynu i sicrhau bod y canlyniadau canlynol yn cael eu cyflawni:

- Gwell iechyd
- Gwell ansawdd bywyd
- Gwneud cyfraniad positif
- Ymarfer dewis a rheolaeth
- Rhyddid rhag gwahaniaethu ac aflonyddwch
- Lles economaidd

- Urddas personol a pharch

### 1.4 Cyd-destun cenedlaethol a rhanbarthol

Yn 2007, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddatganiad ar Bolisi ac Ymarfer i Bobl ag Anabledd Dysgu. Cyhoeddwyd y Datganiad o dan Adran 7(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Leol 1970. Mae'n disodli canllawiau strategaeth blaenorol, ac yn cadarnhau gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, yn seiliedig ar ddatganiad o egwyddorion, fod pob person efo anabledd dysgu yn ddinesydd llawn, efo'r un statws a gwerth a dinasyddion eraill o'r un oedran.

Mae awdurdodau lleol Gogledd Cymru yn gweithio ar y cyd ac yn ategu'r egwyddorion cenedlaethol. Y weledigaeth yw y bydd gan oedolion efo anabledd dysgu well ansawdd bywyd; yn byw yn lleol ble maent yn teimlo'n ddiogel a saff, ble maent yn teimlo'n werthfawr ac yn cael eu cynnwys yn eu cymunedau, a bod ganddynt fynediad at gefnogaeth bersonol effeithiol sy'n hybu annibyniaeth, dewis a rheolaeth.

Yng Ngwynedd byddwn yn ceisio sicrhau bod yr holl wasanaethau yn rhai person ganolog gan ei gwneud yn bosib i bobl wireddu eu llawn botensial fel dinasyddion yn eu cymunedau lleol, gan ystyried y penawdau uchod ym mhob agwedd.

Mae angen cydweithio, cyd-gynllunio a chyd-gomisiynu gyda'n holl bartneriaid er mwyn gwireddu ar y weledigaeth.

### 1.5 Comisiynu rhanbarthol

Bydd Cyngor Gwynedd yn gwneud mwy o gomisiynu ar y cyd gydag awdurdodau eraill a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr dros gyfnod y cynllun hwn. Mae gwaith eisoes wedi dechrau ar gyfeirio pecynnau gofal arbenigol preswyl drwy drefn ranbarthol, er mwyn manteisio ar gyfleoedd i sicrhau gwerth am arian.

## 2. Cysylltiadau gyda chynlluniau strategol lleol a chenedlaethol

Dyma'r prif yrwyr polisi a strategol sy'n hysbysu'r cynllun comisiynu hwn:

- ▶ Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol - Strategaeth ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru dros y Ddegawd nesaf, LIC 2008.
- ▶ Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu, LIC, Ionawr 2011
- ▶ Datganiad ar Bolisi ac arfer ar gyfer Oedolion ag Anabledd Dysgu, LIC, Mawrth 2007
- ▶ Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 2011-2016
- ▶ Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Gwynedd (IGCLI) 2011-14
- ▶ Cynllun 5 Mlynedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, 2010-15
- ▶ Cynllun Tair Blynedd Cyngor Gwynedd (2011-14)
- ▶ Strategaeth Gymunedol Gwynedd 2008-2012



### 3. Cyflwyno'r canlyniadau

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r weledigaeth ar gyfer gwasanaethau anabledd dysgu yng Ngwynedd. Mae dogfen asesiad anghenion yn bodoli, sy'n cynnwys y wybodaeth gefndirol sy'n sail i'r weledigaeth a'r cyfeiriad, sef 'Dogfen Gefndirol Cynllun Comisiynu Anabledd Dysgu.'


Mae'r cynllun gweithredu yn gosod nodau mesuradwy i'r weledigaeth fel y gallwn asesu a ydym yn cwrdd â'r targed ac yn cyflawni'n amcanion. Bydd cynnydd yn cael ei fonitro er mwyn adolygu gweithrediad y blaenoriaethau, i bennu a yw'r gweithrediadau arfaethedig yn siapio gwasanaethau yn y ffordd a fwriadwyd ac i ddiwygio'r gweithrediadau arfaethedig yn dilyn yr adolygiadau yma a chan fod amgylchiadau yn gallu newid.

Er mwyn sicrhau fod newidiadau yn digwydd, fe fyddwn yn adolygu'r Cynllun Comisiynu yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio'n effeithiol a bod ganddo rôl ganolog i adlewyrchu llais budd-ddeiliaid lleol.



## 4. Data

- Ar hyn o bryd (Mawrth 2011), mae yna 535 o oedolion (18+mlwydd oed) efo anabledd dysgu ar y gofrestr anabledd dysgu yng Ngwynedd. Nid yw pawb sydd ar y gofrestr anabledd dysgu yn derbyn gwasanaeth.
- Mae pobl efo anabledd dysgu yn byw yn hwy. Yn y 1930au, amcangyfrifwyd fod disgwyliad oes yn llai na 20 mlwydd oed (Holland 2008). Amcangyfrifir fod disgwyliad oes byw erbyn hyn oddeutu 74, 67 a 58 ar gyfer y bobl hynny ag anabledd dysgu isel, cymedrol a dwys (Bittles et al 2002).



### *Disgwyliad oes pobl ag anabledd dysgu*

- Rhwng 2001/2002 a 2010/2011, bu cynnydd o 10% yn nifer y bobl rhwng 16-64 oed gydag anabledd dysgu, (o 453 i 505). Ymddengys fod poblogaeth anabledd dysgu Gwynedd yn parhau i gynyddu ac mae'r dystiolaeth ymarfer yn dangos bod eu hanghenion yn dwysau.
- Rhwng 2006-2011, bu cynnydd o 23% yn nifer y bobl hŷn (65+) ar y gofrestr anabledd dysgu.




- Mae yna 32 o bobl ag anabledd dysgu yn defnyddio teleofal yng Ngwynedd ar hyn o bryd, a disgwylir i'r ffigwr yma gynyddu yn ystod cyfnod y cynllun hwn.
- Ar 31 Mawrth 2011, roedd 19 o bobl ag anabledd dysgu yn derbyn taliadau uniongyrchol. Bwriad Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd yw hybu ymhellach y defnydd a wneir o daliadau uniongyrchol, gan fod ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r drefn yn parhau yn isel.

### Cefnogaeth ddydd

- Ym mis Mawrth 2011, roedd 367 (69%) o oedolion ar y gofrestr anabledd dysgu yng Ngwynedd yn derbyn gwasanaeth dydd neu ofal yn ystod y dydd. Darperir 38% o'r gwasanaeth gan y darparwr mewnol a 62% gan y sector annibynnol. Mae 25% o'r gyllideb anabledd dysgu yn cael ei wario ar wasanaethau neu ofal dydd.
- Mae 133 (25%) o'r oedolion sydd ar y gofrestr yn derbyn gwasanaeth cefnogol e.e. cyfleoedd cymdeithasu a hamddena, datblygu sgiliau byw bob dydd, cefnogaeth i'r gofalwyr. O'r rhain, darperir 77% o'r gwasanaethau cefnogol gan Wasanaeth Darparu Cyngor Gwynedd, a 23% gan y sector annibynnol.
- Mae 32 o oedolion yn mynychu coleg addysg bellach gan gynnwys cyfleoedd addysg bellach (6% o'r cyfanswm sydd ar y gofrestr).

### Llety

- Mae 283 (53%) o'r oedolion sydd ar y gofrestr anabledd dysgu yn byw gartref gyda'i rhieni/teuluoedd (Mawrth 2011). Mae yna wahaniaethau rhwng y tair ardal. Yn Arfon mae 163 (58%) o unigolion yn byw gyda'i rhieni/teuluoedd, Dwyfor 43 (15%) a Meirionnydd 77 (27%). Ar gyfartaledd dros y 3 blynedd diwethaf, mae 8 o unigolion bob blwyddyn wedi symud o ofal rhieni / teulu i gynllun lletya a gomisiynir gan y Cyngor.



Canran o bobl sy'n byw mewn mathau gwahanol o lety

- ▶ Mae 54 (10%) o oedolion yn byw gyda rhiant / rhieni neu aelodau o'r teulu sydd dros 70 mlwydd oed a throsodd. Bydd hyn yn creu mwy o alw am gefnogaeth i ofalwyr ac am wasanaeth llety yn y blynyddoedd nesaf. Bydd y mwyafrif o'r gofal yn debygol o drosglwyddo o ofal anffurfiol i ddarpariaeth a gomisiynir gan yr awdurdod lleol.
- ▶ Roedd 51 o oedolion wedi derbyn gofal ysbaid yn y flwyddyn ddiwethaf (mewn 2 dŷ gofal ysbaid gan y sector annibynnol a drwy'r cynllun lleoli oedolion).
- ▶ Mae 110 o bobl yn byw fel tenantiaid mewn llety gyda chefnogaeth. Darperir 22% o'r gwasanaeth gan y darparwr mewnol, a 78% gan y sector annibynnol.
- ▶ Mae 53% o'r gyllideb anabledd dysgu yn cael ei wario ar gefnogi / ofalu am bobl mewn llety, sy'n cynnwys cartrefi preswyl a llety a chefnogaeth. Nid oes neb yn derbyn gwasanaeth cartref nyrsio ar hyn o bryd.
- ▶ Mae yna 31 o oedolion ag anabledd dysgu yn rhan o'r cynllun lleoli oedolion yng Ngwynedd. Mae'r cynllun yma yn cynnig llety gyda chefnogaeth i bobl dros 18 ag anableddau dysgu o fewn cartrefi teuluol cydnabyddedig.
- ▶ Mae 46% o'r gwasanaeth preswyl yn cael ei gynnig gan y darparwr mewnol, a 54% yn cael ei gynnig gan ddarparwyr annibynnol (gan gynnwys darpariaeth y tu allan i Wynedd).
- ▶ Mae'r rhaglen Cefnogi Pobl yn ariannu cefnogaeth i 250 o oedolion efo anabledd dysgu, sy'n dod i 63% o'u cyllideb grant blynyddol. Mae hyn yn talu am gefnogaeth yn ymwneud â thai i'r unigolion, er mwyn eu galluogi i gadw eu tenantiaeth a'u hyrwyddo i fyw mor annibynnol â phosibl.

## 5. Rhagdybiaethau ar gyfer 2011 - 2016

- Amcangyfrifir y bydd cyfanswm nifer y defnyddwyr gwasanaeth anabledd dysgu yn cynyddu 2% bob blwyddyn hyd at 2020, ac yn unioni wedi hynny. (Vulnerable People Wanting to Live Healthy, Independent Lives, Cymdeithas Llywodraeth Leol 2007)




Blwyddyn	Nifer yr oedolion (18+) ar y gofrestr Anabledd Dysgu yng Ngwynedd
2011	535
2012	546
2013	557
2015	579
2016	591
2020	640

**Tabl 1** - y twf (uchaf) a ragwelir yn nifer yr oedolion ag anabledd dysgu yng Ngwynedd, yn seiliedig ar dwf blynyddol o 2%

- Yn ôl y rhagdybiaeth ymchwil uchod, amcangyfrifir cynnydd o 56 o oedolion ar y gofrestr anabledd dysgu erbyn 2016, ond yng Ngwynedd, mae'r Gwasanaeth Arbenigol Plant yn rhagweld cynnydd uwch na'r rhagdybiaeth genedlaethol, sef y bydd 76 o bobl ifanc yn trosglwyddo dros y 5 mlynedd nesaf i wasanaeth oedolion anabledd dysgu. Fe fydd hyn yn creu cryn her i'r gwasanaeth – bydd angen cynllunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar y data lleol yma.





*Cyfanswm pobl ifanc y rhagwelir fydd yn trosglwyddo i'r gwasanaeth oedolion yn y 5 mlynedd nesaf*

### Cefnogaeth dydd

Rhagdybir y bydd y galw am gyfleoedd neu ofal dydd yn cynyddu dros gyfnod y cynllun yma i gwrdd ag anghenion (68 person. Dros yr un cyfnod rhagwelir y bydd tua 8 person yn gadael gwasanaeth dydd, a phobl ifanc yn bennaf (76) fydd yn trosglwyddo i'r gwasanaeth oedolion.

Rhagdybiaeth o'r galw i'r dyfodol:

Blwyddyn	Arfon	Dwyfor	Meirionnydd	Gwynedd
2010-11 (cyfredol)	162	69	136	367
2011-12	172	70	137	379
2012-13	182	74	141	397
2013-14	191	75	145	411
2014-15	201	78	149	428
2015-16	207	78	150	435

O'r cynnydd o 19% rhwng 2010-11 a 2015-16, yn seiliedig ar broffil presennol anghenion y defnyddwyr gwasanaeth, rhagdybir y bydd:

- ▶ 10 gydag anghenion gofal dwys neu ymddygiad heriol
- ▶ 21 angen goruchwyliaeth a chefnogaeth lefel uchel
- ▶ 17 gydag anghenion cefnogaeth gymedrol
- ▶ 20 gydag anghenion cefnogaeth isel.

### Gofal ysbaid

Rhagwelir ychydig o gynnydd (10 person) yn y galw am ofal ysbaid dros gyfnod y cynllun yma, ac yn arbennig yn Arfon oherwydd y cynnydd yn y nifer o bobl ifanc ar y gofrestr anabledd dysgu.

Blwyddyn	Arfon	Dwyfor	Meirionnydd	Gwynedd
2010-11 (cyfredol)	29	12	10	51
2011-12	30	12	10	52
2012-13	31	13	11	55
2013-14	34	13	11	58
2014-15	35	13	11	59
2015-16	35	14	12	61

### Llety

Ar gyfartaledd dros y tair blynedd diwethaf, mae yna 8 person y flwyddyn wedi symud o ofal rhieni / teulu i gynllun lletya – rhagwelir y duedd a'r lefel yma yn parhau bob blwyddyn am gyfnod y cynllun comisiynu. Mae 54 o oedolion yn byw gyda rhiant / rhieni neu aelodau o'r teulu sydd 70 mlwydd oed a throsodd. Bydd hyn yn creu mwy o alw am gefnogaeth i ofalwyr ac am wasanaeth llety yn y blynyddoedd nesaf. Bydd y mwyafrif o'r gofal yn debygol o drosglwyddo o ofal anffurfiol i ddarpariaeth a gomisiynir gan yr awdurdod lleol.

Fe fydd y galw am wasanaeth llety yn llawer uwch na'r trosiant o fewn y ddarpariaeth llety. Rhagwelir y bydd angen tua 6 lleoliad y flwyddyn ar draws Gwynedd: tua 3 yn Arfon, 1 yn Nwyfor, a 2 ym Meirionnydd. Nid yw'r data yma yn ystyried y niferoedd a all geisio am breswyliaeth arferol yng Ngwynedd.

Fe fyddwn yn annog mwy o bobl efo anabledd dysgu i dderbyn y cyfleoedd a gynigir gan deleofal, os ydynt yn byw mewn tŷ â chefnogaeth, neu efo'u rheini / gofalwyr – mae hyn yn wir hefyd am offer ac addasiadau.

Rhagdybir felly y bydd cynnydd yn y niferoedd sydd angen gwasanaeth dydd, gofal ysbaid a llety dros gyfnod 5 mlynedd y cynllun hwn.

## 6. Model mapio anghenion / adnoddau - crynodeb

I grynhoi, bydd y prif newidiadau y byddwn yn eu gweld dros y 5 mlynedd nesaf yn cynnwys:

- ▶ Cynnydd o 76 (14%) o bobl ar y gofrestr anabledd dysgu.
- ▶ Ail-fodelu'r gwasanaeth cefnogaeth i gynyddu cefnogaeth ar gyfer cymdeithasu mewn grwpiau oddi fewn i'r gymuned.
- ▶ Datblygu gofal ysbaid i sicrhau ei fod yn cwrdd â'r angen a ragwelir.
- ▶ Dewisiadau llety ar gael sy'n cwrdd ag anghenion amrywiol tra hefyd yn cynnig gwerth am arian.



Yn ychwanegol, bydd cyflwyno galluogi ac egwyddorion uchafu annibyniaeth yn amgylchynu'r gwasanaeth cyfan. Bydd hyn yn arwain at newid mewn diwylliant a chanlyniadau, yn hytrach na newid mewn darpariaeth gwasanaeth.

Mae'r tabl trosodd yn amlinellu sefyllfa gyfredol y Cyngor, gan amlinellu gwariant, nifer y bobl sydd wedi derbyn gwasanaeth, a chost yr uned yn fras ar gyfer bob categori gwasanaeth. Rydym wedyn yn amlinellu ein bwriad ar gyfer y dyfodol, yn syml, os ydym yn rhagweld y bydd cynnydd, lleihad, neu dim newid yn y gofyn am wasanaeth. Mae canran y newid yn rhoi syniad o faint y newid rydym yn ei ragweld.

Mae effaith y newid yma wedi'i ragamcanu ar sail y gyllideb, niferoedd, ac yn fras y gost uned a ddisgwylir erbyn 2015-16.

Yna gweler syniad o sut mae'r farchnad wedi ei rhannu ar hyn o bryd, trwy'r canran o wasanaeth a gomisiynir gan y darparwr mewnol, a'r darparwyr annibynnol. Mae'r bwriad comisiynu boed yn fewnol, neu'n allanol, hefyd wedi ei ddangos.

Model anghenion/adnoddau

	2010-11				2015-16				Darpariaeth Fewnoll				Darpariaeth Allanol	
	Cyllideb £000	Nifer sydd wedi derbyn gwas yn ystod y flwyddyn	Cost cyfartalog y pen y flwyddyn	Bwriad dros gyfnod y cynllun	% Newid mewn nifer defnyddwyr	Rhagolwg Cyllideb £000	Nifer fydd wedi derbyn gwas yn ystod y fl.	Cost cyfartalog y pen y flwyddyn	% gwas cyfredol	Bwriad dros gyfnod y cynllun Darpariaeth Mewnol	% gwas cyfredol	Bwriad dros gyfnod y cynllun Darpariaeth Allanol	% gwas cyfredol	Bwriad dros gyfnod y cynllun Darpariaeth Allanol
Galluogi	0	0	0	↑	-	14	10	1,400	100	↑	0	↑	0	
Teleofal	8	32	244	↑	38%	11	44	244	0	DB	100	↑	100	
Offer + Addasiadau	7	58	127	↑	14%	8	66	127	0	DB	100	↑	100	
Gwas. Dydd Taliadau	2,810	367	7,657	↑	19%	2,750	435	6,322	38	↔	62	↑	62	
Uniongyrchol	152	19	8,000	↑	58%	240	30	8,000	0	DB	100	↑	100	
Gwas. Cefnogol	854	133	6,421	↑	25%	854	166	5,145	77	↓	23	↑	23	
Gofalwyr	73	295	247	↑	10%	80	325	247	0	↓	100	↑	100	
Gofal ysbaid	351	51	6,882	↑	20%	351	61	5,754	5	↑	95	↑	95	
Tai a chefnogaeth	2,897	110	26,336	↔	0%	2,867	110	26,064	22	↔	78	↔	↔	
Cynllun lleoli oedolion	423	31	13,645	↑	32%	560	41	13,659	100	↑	0	DB	DB	
Tai gofal ychwanegol	0	0	0	↑	-	42	4	10,500	-	↑	-	↑	↑	
Cartref preswyl	2,537	41	61,878	↔	0%	2,237	41	54,561	46	↓	54	↑	↑	
Cartref preswyl pobl hŷn	0	0	0	↑	-	165	11	15,000	-	-	-	↑	↑	
Cartref nyrsio	0	0	0	↔	-	75	5	15,000	-	-	-	↑	↑	
Gwas. eraill	676	-	-	↔	-	676	-	-	-	-	-	-	-	
<b>Cyfanswm</b>	<b>10,788</b>	<b>1,137</b>	<b>9,488</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>10,931</b>	<b>1,349</b>	<b>8,103</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	

DB – ddim yn berthnasol



## 7. Bwriadau Comisiynu 2011 - 2016



### 7.1 Sicrhau ansawdd gwasanaethau / hawliau dynol

- Bydd y Gwasanaeth yn gweithio gyda'i bartneriaid o fewn y sector gofal cymdeithasol a'r mudiadau mentrau cymdeithasol i uchafu ansawdd darpariaeth.
- Bydd y gwaith yma'n cael ei brofi drwy'r teclyn Aseiad Effaith Cydraddoldeb er mwyn sicrhau fod y cynllun yn cyd-fynd â'r angen i sicrhau hawliau dynol.

### 7.2 Gwerth am arian a'r gwerth gorau

- Byddwn yn gweithio tuag at fod yn fwy effeithiol ac effeithlon, a sicrhau gwerth am arian ar sail yr ymarfer gorau. Ein blaenoriaeth yw darparu gwasanaeth sydd yn addas ac sy'n cwrdd yn ddigonol â'r anghenion sydd wedi eu hadnabod, ac sydd yn dilyn deddfwriaeth ac ymarfer gorau.
- Mae Gwynedd yn cael ei gwasanaethu gan farchnad gofal amrywiol. Bydd y tuedd hwn yn parhau wrth i Wasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd sicrhau ein bod yn comisiynu'r gwasanaeth gorau am y pris gorau. Byddwn yn comisiynu o ba bynnag sector sy'n gallu cynnig gwasanaeth o ansawdd am y pris gorau.
- Bydd y Gwasanaeth yn disgwyl i, ac yn cefnogi darparwyr gwasanaeth i fod yn fwy effeithiol yn eu gwaith a darparu gwerth am arian.

### 7.3 Dewisiadau cydweithio

- Bydd Gwynedd yn manteisio ar bob cyfle i gydweithio lle mae hyn yn cynnig gwasanaeth gwell a/neu fwy effeithiol. Mae hyn yn cynnwys cydweithio gyda, ymysg eraill, y darparwr mewnol, y sector annibynnol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac awdurdodau eraill.
- Bydd y Gwasanaeth yn edrych am gyfleoedd i gomisiynu rhai gwasanaethau ar y cyd gydag awdurdodau eraill Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr e.e. gofal preswyl arbenigol.

### 7.4 Gwasanaeth a ddarperir yn uniongyrchol neu o dan contract / cynladwyedd gwasanaeth

Byddwn yn:

- ▶ Ymestyn galluogi i'r gwasanaeth anabledd dysgu erbyn Medi 2012.
- ▶ Cynnig offer teleofal yn gynyddol i unigolion gydag anableddau dysgu i uchafu eu gallu i fyw mor annibynnol â phosib yn y gymuned.
- ▶ Ail fodelu darpariaeth gwasanaeth / gofal dydd sy'n cynnwys cyfleoedd gwaith i sicrhau cyfarch anghenion cyfredol a'r galw cynyddol i'r dyfodol.
- ▶ Hyrwyddo taliadau uniongyrchol fel bod unigolion yn gallu cael dewis uniongyrchol ynglŷn â'u gwasanaeth e.e. gofal ysbaid hyblyg.
- ▶ Ail fodelu gwasanaeth cefnogol drwy leihau nifer yr oriau a ddarperir ar gyfer gweithgareddau unigol a chynyddu cefnogaeth i gymdeithasu mewn grwpiau yn y gymuned.
- ▶ Adolygu darpariaeth gyfredol gofal ysbaid a gweithredu ar ganlyniad yr adolygiad.
- ▶ Dynodi lefel angen o fewn cynlluniau llety gyda chefnogaeth a pan yn briodol, lleoli unigolion gydag anghenion gofal cyffelyb gyda'i gilydd.
- ▶ Cynyddu'r defnydd o'r cynllun lleoli oedolion.
- ▶ Archwilio i ddatblygu unedau tai gofal ychwanegol ar safle/oedd cartref/i preswyl arbenigol y Cyngor neu safleoedd priodol eraill i gyfarch anghenion hirdymor.
- ▶ Rhesymoli, yn seiliedig ar anghenion defnyddwyr, darpariaeth llety gyda chefnogaeth gan archwilio i sefydlu unedau 'craidd a chlwstwr'.
- ▶ Ail-lunio darpariaeth gofal preswyl arbenigol anabledd dysgu yn unol ag anghenion defnyddwyr y gwasanaeth gan sicrhau gwerth gorau am arian.

### 7.5 Rheolau Sefydlog Cyllidol a Chontractio a Datblygiad y Farchnad

- ▶ Bydd y Gwasanaeth yn cydweithio gyda'i bartneriaid i ddatblygu ymhellach y farchnad gofal cymdeithasol a fydd yn canolbwyntio ar ganlyniadau er mwyn galluogi oedolion ag anabledd dysgu i gael cyfleoedd i fod yn ddinasyddion llawn.
- ▶ Bydd y Gwasanaeth yn cydweithio gyda'i bartneriaid i sicrhau bod unrhyw newid yn cael ei reoli a bod unrhyw effaith ar ddefnyddwyr sy'n deillio o hynny yn cael ei asesu a'i ystyried yn llawn.

### 7.6 Gweithio efo darparwyr i'w cefnogi mewn recriwtio a chadw rheolwyr

- Bydd Partneriaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Gwynedd yn adnabod anghenion hyfforddiant sy'n cyd-fynd â'r bwriadau comisiynu.

Mae'r uchod yn cyd-fynd â'r tabl ar dudalen 12.

#### Sut fydd profiad ein defnyddwyr yn newid?

##### Heddiw - Mr Arwyn Evans

*"Mae'r mab, Arwyn, yn rhannu tŷ efo dau arall. Maent yn cael cefnogaeth 24 awr gan ddarparwr gwasanaeth. Mae o yn reit annibynnol. Mae bws mini y gwasanaeth yn ei gludo i ofal dydd bob dydd, ac yno mae'n gwneud gwaith ysgafn. Mae'n 36 mlwydd oed erbyn hyn, ac yn mynd yno ers iddo adael ysgol. Mi fysa'n neis iddo gael y cyfle i wneud rhywbeth arall erbyn hyn. Mi fydda fo'n gallu mynd ar y bws cyhoeddus reit ddel mae'n siŵr. Dydi o ddim yn rhy hoff o gael staff yn cysgu yn y tŷ efo nhw chwaith - fel 'big brother' medda fo."*



##### Yfory - Mr Arwyn Evans

*"Mae'r mab, Arwyn, yn rhannu tŷ efo dau arall. Maent yn cael ychydig o oriau o gefnogaeth bob dydd, i wneud yn siŵr eu bod nhw'n ll'nau a thalu biliau ac ati - ac mae teleofal wedi cael ei osod yn y tŷ. Dydi staff ddim yn gorfod cysgu i mewn bellach - mae o'n teimlo'n llawer hapusach ac yn fwy fel 'ma ei dŷ fo a'r hogia ydi o rŵan. Mi roedd yna ychydig o ffŷs un tro, pan nath Arwyn setio'r larwm tân - roedd o wedi llosgi tost! Mi wnaeth Galw Gofal (y ganolfan fonitro galwadau) gysylltu gyda nhw'n syth a sortio'r peth allan. Ges i alwad wedyn hefyd, i adael mi wybod be oedd wedi digwydd."*

*Mae wedi cael symud i gyfle gwaith arall - mae yna fenter gymdeithasol sydd newydd ddechrau, ac mae yna griw gwahanol o bobl yn mynd yno, ond rhai o'i hen ffrindiau hefyd. Mae o'n rhan o grŵp hunan-advocaciaeth ac mae'n cael cyfle i roi ei farn ar wahanol bynciau."*



**Heddiw - Miss Sarah Jones**

*“Mae Sarah yn byw mewn cartref preswyl. Symudodd i'r cartref pan farwodd ei mam a'i thad. Roedd hi'n crwydro tipyn ar y dechrau ac yn gwrthod bwyta. Roedd y newid yn beth mawr iddi ymdopi ag o, doedd hi heb arfer byw gyda gymaint o bobl eraill, ac yn colli ei rhieni'n fawr. Mae ei hiechyd wedi dechrau dirywio, ac mae'n ymddangos yn ffwndrus. Mae fel petai wedi rhoi'r ffidil yn y to”.*

**Yfory - Miss Sarah Jones**

*“Mae Sarah yn byw mewn tai gofal ychwanegol. Cafodd Sarah ddewis o wahanol fath o gefnogaeth breswyl. Roedd yn crwydro tipyn ar y dechrau ac yn gwrthod bwyta. Roedd y newid yn beth mawr iddi ymdopi ag o, yn enwedig o ystyried bod ei iechyd yn wael, ond roedd hi'n hapus iawn i gael fflat bach taclus ei hun. Wedi cyfnod yn yr ysbyty, mi gafodd hi gyfle i weld faint oedd hi'n gallu ei wneud ar ei phen ei hun, a chyfle iddi barhau i wneud hyn. Mi wnaeth fyd o wahaniaeth iddi - mae hi'n llai ffwndrus ac yn bwyta llawer mwy erbyn hyn, ac yn gallu gwneud rhai prydau a phaned o de iddi hi ei hun. Mae teleofal wedi ei osod yno, sydd yn hysbysu'r staff os ydi hi'n crwydro (ond dydi hi ddim yn crwydro llawer erbyn hyn). Mae yna rywun yn galw i mewn i'w gweld yn ddyddiol, a gan fod yna reolwr cynllun ar y safle, mae'n rhoi tawelwch meddwl iddi hi fod yna rywun y gall fynd ato pe bai angen. Mae hefyd wedi dechrau mynychu gweithgaredd dydd am ychydig o oriau'r diwrnod - mae'n awyddus i gynyddu'r oriau am ei bod yn ei fwynhau gymaint. Mae hi'n cael llai o gyfnodau 'anodd' erbyn hyn. Mae'n mwynhau cymysgu efo'r preswylwyr eraill ar y safle, lle maent yn cael sesiwn cymdeithasu wythnosol yn yr ystafell gymunedol”.*

## 8. Ymgynghori

Cynhaliwyd sesiwn Canlyniadau'n Cyfrif fis Hydref 2010. Roedd yr aelodau yn cynnwys cynrychiolwyr y darparwyr gwasanaeth, y Gwasanaethau Cymdeithasol, Cynnal Gofalwyr, Gwasanaeth Adfocatiaeth, Cefnogi Pobl, gofalwyr a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Y prif ganlyniadau a ddaeth allan o'r sesiwn oedd bod angen:



- ▶ Hybu annibyniaeth
- ▶ Lle addas 'am oes'
- ▶ Cyfleoedd teg i fyw fel dinasyddion llawn
- ▶ Dewisiadau a hyblygrwydd mewn cyfleoedd hamdden a chyfleoedd gwaith
- ▶ Opsynau tai – tenantiaeth sengl / tai rhannu
- ▶ Gwell dealltwriaeth oddi fewn i'r gymuned o faterion cyfathrebu e.e. symbolau arbennig ayb.
- ▶ Gwrando ar lais yr unigolyn
- ▶ Gwell cyfathrebu ac ymddiriedaeth rhwng partneriaid
- ▶ Cynlluniau gofal sy'n adlewyrchu canlyniadau
- ▶ System deg a chyfartal i'r holl ddefnyddwyr a system deg a chyfartal i'r holl ddarparwyr.

Cynhaliwyd ymgynghoriad efo 5 defnyddiwr gwasanaeth mewn sesiwn hunan-adfocatiaeth ar 13 Mehefin 2011.

Y prif faterion a oedd yn bwysig i'r defnyddwyr gwasanaeth oedd DEWIS, ANNIBYNNIAETH a RHYDDID.

Aethpwyd i ymweld â sawl darparwr gwasanaeth wrth lunio'r cynllun comisiynu hwn, gan gynnwys darparwyr llety a chefnogaeth, gweithgareddau dydd/hamdden a chefnogaeth i ofalwyr.

Yn sgil y trafodaethau hyn, fe fyddwn yn ceisio datrys y problemau cyffredin ddaeth i'r fei ac yn cydweithio efo'r darparwyr yma yn ystod yr hinsawdd economaidd anodd sydd ohoni.

## 9. Monitro

Mae cryfhau'r broses gomisiynu a chontractio ar gyfer gofal cymdeithasol yn flaenoriaeth a fydd yn galluogi gwasanaethau cymdeithasol i oedolion i gyflawni ei weledigaeth o roi mwy o ddewis a rheolaeth i bobl.

Bydd y cynllun gweithredu yn cael ei fonitro'n rheolaidd.

Wrth osod unrhyw gytundeb, bydd yn rhaid sicrhau fod y gwaith a ddarperir yn cydymffurfio â'r cymalau perthnasol yng Nghynllun Iaith Cyngor Gwynedd.

Os darperir gwasanaeth generig ar draws y sir, bydd angen i'r ddarpariaeth gydymffurfio â'r gofynion canlynol (yn unol â natur y gwasanaeth):

- ▶ Darparu gwasanaeth cyson yn y Gymraeg a'r Saesneg
- ▶ Cofnodi a pharchu dewis iaith y defnyddwyr
- ▶ Trefnu fod gwybodaeth a llenyddiaeth a ddarperir i'r cyhoedd yn ddwyieithog
- ▶ Sicrhau bod arwyddion a hysbysebion yn ddwyieithog
- ▶ Sicrhau fod trefniadau cyfieithu mewn lle pan fo'r angen.



## 10. Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

Wrth ddarparu gwasanaeth penodol i unigolyn neu deulu, dylid hefyd sicrhau fod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn newis iaith y defnyddiwr a'i deulu/theulu a thrwy hynny, sicrhau fod anghenion ieithyddol y defnyddiwr yn ganolog yn y broses o gynllunio'r gwasanaeth.



Bydd y Cyngor yn gweithredu'n unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf yr Iaith Gymraeg, gan warchod hawliau pobl ar sail yr holl nodweddion gwarchoddedig.

Yn unol â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, dylid nodi'n glir ar unrhyw gytundeb bod angen i'r darparwyr sicrhau nad ydynt yn camwahaniaethu ar sail y Nodweddion Gwarchoddedig (sef hil, rhyw, traws rywiol, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, oedran, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth). Disgwylir cydymffurfiaeth mewn perthynas â darparu gwasanaeth a chyflogaeth.

Yn ychwanegol at hyn, dylid rhoi ystyriaeth lawn i berthnasedd y gwaith dan sylw i Ddyletswydd Cyffredinol y Ddeddf, sef:

- Hyrwyddo cydraddoldeb yn bositif
- Cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth
- Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal
- Meithrin perthnasau da.

Os oes yna berthnasedd, dylai amodau'r cytundeb nodi'r disgwyl i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gyffredinol a nodir uchod.

## 11. Geirfa

### **Canlyniadau'n Cyfri**

Dull o gynllunio gwasanaethau gan roi ffocws ar y canlyniadau y dymunir eu gwireddu ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth.

### **Craidd a chlwstwr**

Model lletya, fel arfer llety a chefnogaeth, lle mae yna un llety craidd, a nifer o unedau llety yn amgylchynu'r llety craidd ar ffurf clwstwr.

### **Cynllun Lleoli Oedolion**

Cynllun sydd yn darparu llety yng nghartref gofalwyr ar gyfer oedolion ag anabledd dysgu sydd angen cefnogaeth i fyw yn annibynnol yn y gymuned.

### **Gofal anffurfiol**

Gofal sydd ddim yn cael ei ddarparu gan yr Awdurdod Lleol h.y. sy'n cael ei ddarparu gan rieni / aelod o'r teulu.

### **Gofalydd / gofalwyr**

Rhywun sy'n edrych ar ôl person arall na fyddai'n gallu byw'n annibynnol heb gefnogaeth eu gofalydd. Gall y person yma fod yn briod, partner, rhiant, plentyn, perthynas arall neu ffrind sy'n sâl, yn anabl neu'n hŷn a bregus.

### **Grŵp Gwella Gwasanaeth Anabledd Dysgu**

Grŵp cynllunio ar y cyd anabledd dysgu sy'n cynnwys partneriaid megis lechyd, darparwyr gwasanaeth, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a'r sector annibynnol.

### **Preswyliaeth arferol**

Pan rydym yn darparu gwasanaethau gofal i rywun, i'w ariannu gan yr awdurdod lleol, mae angen bod yn glir ynghylch ble maent yn byw - eu 'preswyliaeth arferol' - er mwyn pennu pa awdurdod lleol sydd â'r cyfrifoldeb am yr asesu a'r ariannu. Gall preswyliaeth arferol newid o gyfrifoldeb un awdurdod lleol i'r llall os yw person yn symud o sefyllfa 'cartref preswyl' i denantiaeth.

### **Rhaglen Cefnogi Pobl**

Rhaglen gyllido cefnogaeth yn ymwneud â thai i bobl fregus. Darperir cefnogaeth i unigolion cymwys i'w cynorthwyo i gadw eu tenantiaeth.

### **Tîm amlddisgyblaethol**

Mae'r Tîm Anabledd Dysgu yn gyfrifol am asesu ac adolygu anghenion gofal pobl ag anabledd dysgu, gan sicrhau darpariaeth addas.





## CYNLLUN GWEITHREDU

### Blaenoriaeth

#### I. Llety

#### Gweithred

I.1 Rhesymoli darpariaeth gofal preswyl arbenigol anabledd dysgu yn unol ag anghenion defnyddwyr y gwasanaeth gan sicrhau gwerth gorau am arian.

#### Meini prawf

Penderfyniad gwleidyddol wedi ei dderbyn ynglŷn â dyfodol cartrefi preswyl Pant yr Eithin, Harlech a Tan y Marian, Pwllheli.

#### Dyddiad

Hydref 2011

#### Cyfrifoldeb

Ann Lloyd Jones, Arweinydd Bwrdd Prosiect Anabledd Dysgu.

### Blaenoriaeth

#### I. Llety

#### Gweithred

I.2 Archwilio i ddatblygu unedau tai gofal ychwanegol ar safle/oedd cartref/i preswyl arbenigol y Cyngor a/neu safleoedd priodol eraill i gyfarch anghenion hirdymor (hyd at 40 o unigolion).

#### Meini prawf

Gweithredu ar benderfyniad Bwrdd y Cyngor Astudiaeth dichonoldeb wedi ei gynnal a'i gyhoeddi.

Yn seiliedig ar yr astudiaeth, cynllun mewn lle i ddatblygu safle / safleoedd.

#### Dyddiad

Rhwng Tachwedd 2011 ac Ebrill 2012

Mawrth 2013

#### Cyfrifoldeb

Meilys H Smith, Uwch Reolwr Gwasanaeth Busnes

### Blaenoriaeth

#### I. Llety

#### Gweithred

I.3 Rhesymoli yn seiliedig ar anghenion defnyddwyr darpariaeth llety gyda chefnogaeth:

- ▶ Archwilio i sefydlu unedau 'craidd a chlwstwr'
- ▶ Dynodi lefel angen h.y. i'r dyfodol, lleoli unigolion gydag anghenion gofal cyffelyb gyda'i gilydd.

#### Meini prawf

Cynllun rhesymoli, wedi ei gytuno gyda defnyddwyr, darparwyr gofal a chymdeithasau tai.

#### Dyddiad

Mehefin 2012

#### Cyfrifoldeb

Ann Lloyd Jones, Arweinydd Bwrdd Prosiect Anabledd Dysgu

### Blaenoriaeth

#### I. Llety

#### Gweithred

I.4 Gwneud mwy o ddefnydd o'r Cynllun Lleoli Oedolion.

#### Meini prawf

Cynnydd yn y nifer sy'n derbyn cefnogaeth gan y Cynllun Lleoli Oedolion

#### Dyddiad

Yn parhau

#### Cyfrifoldeb

Rheolwr Gwasanaeth Anabledd Dysgu ac ymarferwyr gwaith cymdeithasol

## Blaenoriaeth

### 2. Gofal ysbaid

#### Gweithred

Adolygu darpariaeth gyfredol gofal ysbaid a gweithredu ar ganlyniad yr adolygiad.

#### Meini prawf

Cynllun yn ei le

Cynllun yn weithredol

#### Dyddiad

Ebrill 2012

Mehefin 2012

#### Cyfrifoldeb

Rheolwr Gwasanaeth Oedolion (Datblygu a Chomisiynu)

## Blaenoriaeth

### 3. Gwasanaeth a Gofal Dydd

#### Gweithred

2.1 Adnabod cyfleoedd i gyd gomisiynu gydag lechyd, ddarpariaeth addas ar gyfer gofal dydd unigolion ag anghenion dwys.

#### Meini prawf

Cyfleoedd wedi eu hadnabod a chynllun wedi ei baratoi.

Gweithredu'r cynllun

#### Cyfrifoldeb

Rheolwr Gwasanaeth Anabledd Dysgu

Meilys H Smith

#### Dyddiad

Medi 2013

Dechrau Medi 2013

## Blaenoriaeth

### 3. Gwasanaeth a Gofal Dydd

#### Gweithred

2.2 Ail fodelu darpariaeth gwasanaeth dydd a chyfleoedd gwaith i sicrhau cyfarch angen cynyddol i'r dyfodol.

#### Meini prawf

Astudiaeth dichonoldeb a chynllun busnes wedi ei baratoi

#### Cyfrifoldeb

Meilys H Smith

#### Dyddiad

Hydref 2013

### Blaenoriaeth

#### 4. Galluogi

##### Gweithred

Ymestyn galluogi i'r gwasanaeth anabledd dysgu.

##### Meini prawf

Cynnydd yn y nifer sy'n derbyn galluogi.

##### Dyddiad

Medi 2012

##### Cyfrifoldeb

Rheolwr Gwasanaeth Anabledd Dysgu ac ymarferwyr gwaith cymdeithasol

### Blaenoriaeth

#### 5. Teleofal

##### Gweithred

Cynyddu'r nifer sy'n derbyn teleofal dros y 5 mlynedd nesaf.

##### Meini prawf

Nifer yn derbyn teleofal	
2011-12	32 unigolyn
2012-13	35 unigolyn
2013-14	38 unigolyn
2014-15	41 unigolyn
2015-16	44 unigolyn

##### Dyddiad

Yn parhau

##### Cyfrifoldeb

Rheolwr Gwasanaeth Anabledd Dysgu ac ymarferwyr

### Blaenoriaeth

#### 6. Taliadau uniongyrchol (TU)

#### Gweithred

Cynyddu'r nifer sy'n derbyn TU

#### Meini prawf

Cynnydd blynyddol yn y nifer o oedolion efo anabledd dysgu a / neu ofalwyr oedolion efo anabledd dysgu sy'n derbyn TU

2011-12	19 unigolyn
2012-13	22 unigolyn
2013-14	25 unigolyn
2014-15	27 unigolyn
2015-16	30 unigolyn

#### Dyddiad

Yn parhau

#### Cyfrifoldeb

Rheolwr Gwasanaeth Anabledd Dysgu ac ymarferwyr

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r:

Uned Comisiynu,  
Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol,  
Cyngor Gwynedd,  
Stryd y Jêl,  
Caernarfon,  
Gwynedd, LL55 1SH.

☎ 01286 679246

✉ [Comisiynugc@gwynedd.gov.uk](mailto:Comisiynugc@gwynedd.gov.uk)